# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG "C"

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## GWAITH Y FLWYDDYN RHWNG 01.04.2023 – 31.03.2024

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf Cyngor Cymdeithas Botwnnog sydd yn cofnodi'r gwaith sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod 2023/2024. Dyma flas o waith y Cyngor Cymdeithas, a sut mae'r Cyngor yn gweithredu gyda'r gymuned i wella lles cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yr ardal i bawb o bob oed.

**Ardal Cymdeithas Botwnnog**

Mae dalgylch y Cyngor ym Mhen Llŷn, ac yn glwstwr o bentrefi bach a chanolig eu maint sydd wedi eu lleoli mewn cefn gwlad prydferth a thlws. Yma mae'r iaith Gymraeg i'w chlywed yn fwrlwm ac mae cyfoeth o ddiwylliant Cymreig ymhobman.

Asgwrn cefn yr economi leol yw'r diwydiannau amaeth, bwyd a thwristiaeth ac mae'r tirwedd yn gymysgedd o dir glas, rhosydd, coedwigaeth, afonydd, nentydd a milltir o arfordir ym Mhorth Neigwl.

Mae'r ardal yn ymestyn o Nanhoron i'r Fantol yn Rhoshirwaun; o'r Sarn i fyny am Frynmawr.

**Gwybodaeth am y Cyngor**

Roedd 766 o etholwyr ar y gofrestr yng nghymuned Botwnnog yn ystod y flwyddyn yma.

Mae tair ward yn y gymuned a 11 cynghorydd wedi eu hethol hyd fis Mai 2027 pan gynhelir etholiad eto:

- **Ward Botwnnog** sy'n cynnwys ardaloedd Botwnnog a Nanhoron;

  Cynghorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffiths, Glyn Roberts, Glenys Williams

  **Ward Sarn Mellteyrn** sy'n cynnwys ardaloedd Sarn Mellteyrn a Bryn Mawr

  Cynghorwyr Elin Hughes, Carys Eilwen Williams, Siôn Williams

- **Ward Bryncroes** sy'n cynnwys ardal Bryncroes a Phenygroeslon

  Cynghorwyr Dylan Parry Jones, William Michael Strain, Efan Thomas, Iwan James Williams

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod blynyddol bob mis Mai. Y Cynghorydd Siôn Williams yw Cadeirydd y Cyngor am 2023/2024, a'r Is-gadeirydd yw y Cynghorydd Michael Strain.

**Staff**

Un aelod o staff sydd gan y Cyngor Cymdeithas, sef Gwenda Roberts, sy'n Glerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae'n gweithio rhan amser. ellir cysylltu gyda'r Clerc drwy e-bost sef clerc@botwnnog.cymru neu drwy lythyr i Gwyndy, Bryncroes, Pwllheli. LL53 8ET, neu ffôn ar 01758 730357.

**Cyfarfodydd**

Cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor Cymdeithas yn fisol ar yr ail nos Lun bob mis, heblaw am fis Awst. Cynhelir y cyfarfodydd yn Gymraeg. Yn ogystal â chyfarfodydd llawn y Cyngor cefnogir

gwaith y Cyngor gan roi hawliau ym mis Awst i'r Cadeirydd ag aelodau'r Ward berthnasol drafod unrhyw gais cynllunio ddaw i fewn yn ystod y gwyliau ac hefyd hawl i'r Cadeirydd awdurdodi unrhyw daliad ddaw yn ddyledus yn ystod yr un cyfnod. Mae gan bob pwyllgor dermau ac aelodaeth benodedig sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor, ac sydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd.

Yn ystod y flwyddyn 2023/24 cynhaliwyd y cyfarfodydd unai yng Nghanolfan Bryncroes, Neuadd Goffa Sarn Mellteyrn, Festri Capel Rhydbach, Botwnnog neu Festri Capel Hebron Llangwnnadl.

**Safle We**

Mae gwybodaeth am y Cyngor Cymuned gan gynnwys rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion, polisïau, canlyniad archwilio ac hysbysiadau ar safle We'r Cyngor: www.cyngorbotwnnog.cymru

**Aelodaeth Allanol**

Mae'r Cyngor yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cymru. Mae hyn yn darparu gwasanaeth o roi cyngor cyfreithiol, cyngor ar wella darpariaeth gwasanaethau, hyfforddiant, materion polisi, a gwefan gynhwysfawr. Mae'r Cyngor yn ethol dau aelod i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarthol Arfon Dwyfor Un Llais Cymru sydd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sef y Cynghorwyr Siôn Williams (Is-Gadeirydd y Cyngor) a Carys H. Evans.

Mae'r Cyngor yn ethol aelodau i gyrff allanol eraill, sef Bwrdd Llywodraethol ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog (Y Cynghorydd Gwenan Griffith) ac AHNE Llyn (Y Cynghorydd Iwan James Williams).

**Cyllid a gwariant**

Mae'r broses o benderfynu ar lefel praesept Cyngor Cymdeithas Botwnnog yn cynnwys paratoi cyllideb ddrafft ar sail asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor gan ystyried y costau tebygol, cynlluniau ar gyfer prosiectau, gosod lefel ar gyfer cyfraniadau, o fewn y canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Mae hefyd ystyriaeth o'r arian wrth gefn sydd gan y Cyngor er mwyn sicrhau gosod praesept priodol.

Penderfynwyd gofyn am £6,500 o arian praesept am y flwyddyn 2023-2024.

Bydd y Clerc yn anfon ebost yn chwarterol drwy ffurf excel i'r cynghorwyr yn dangos y sefyllfa ariannol hyd at ddyddiad y cyfarfod ac hefyd rhagolwg o'r gyllideb hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa.

Prif ffynhonnell incwm y Cyngor yw'r praesept sydd yn cael ei osod yn flynyddol a'i gyflwyno i Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r praesept yn cael ei gasglu ar ran y Cyngor gan Cyngor Gwyned

**Manylion data i'w rhoi ar y wefan er cydymffurfio a'r Ddeddf Diogelu Data**

Bu i bob aelod arwyddo yn cydsynio i roi ei enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost ar y wefan onid yw'n dangos yn wahanol ar y wefan.

**Crynodeb derbyniadau a thaliadau 2023/2024**

| | Derbyniadau<br><br>£ | Taliadau<br><br>£ |
|---|---|---|
| Praesept gan Cyngor Gwynedd | 6,500 | |
| Taliadau'r banc | 0 | 236 |
| Cynnal Llwybrau (ad-daliad gan Cyngor Gwynedd) 2023/24 | Dod i fewn ar ol diwedd y flwyddyn ariannol | |
| Scottish Power – polion trydan | £157.32 | |
| Ffioedd claddu, coferestru a.y. a hawl i fynd a cherrig i'r Fynwent | £670.00 | |
| Treth ar werth 2022/23 (derbyniwyd 2/5/2023) | £394.80 | |
| Cyflog a chyllid y wlad | | 2,100 |
| Costau staff<br><br>Postio<br><br>Cosb gan yr HMRC | | 0<br><br>11.15<br><br>100.00 |
| Yswiriant | | 838.34 |
| Gwefan (2023/24 a 2024/25) | | 92.00 |
| Archwilio cyfrifon<br><br>Archwiliad 2019/20 – £200; Archwiliwr Mewnol £205 | | 405.00 |
| Cyfraniadau | | 1150.00 |
| Torri gwair | | 2158.80 |
| Arall<br>Un Llais Cymru<br>Tybiau a blodau<br>Blodau i'r tybiau<br>Slabiau oddi tan y tybiau<br>Hysbysfyrddau<br>Gliniadur, argraffydd a.y.<br>Trosglwyddo data<br>Tacluso Ffynnon Fair<br>Tâl hurio | | <br>178.00<br>375.00<br>200.00<br>35.04<br>1,090.36<br>646.88<br>75.00<br>40.00<br>110.00 |
| Cyfanswm | 7722.12 | 9841.57 |

Fe wnaeth pob Cynghorydd ddatgan nad oeddent am dderbyn y £150.00 o lwfans yr oedd hawl ganddynt ei dderbyn yn unol ag adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

**Atebolrwydd**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu côd ymddygiad aelodau a cedwir cofrestr o fuddiannau ar gyfer pob aelod. Mae gofyn i'r cynghorwyr ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt am eitemau i'w trafod ar gychwyn pob cyfarfod a bydd y rhain yn cael eu nodi yn y cofnodion.

Mae cyfrifon y Cyngor yn cael eu archwilio gan archwilydd mewnol, sef Adran Archwilio Cyngor Gwynedd, a'r archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd canlyniad yr archwilio yn cael ei osod ar wefan y Cyngor Cymdeithas bob blwyddyn a nodir hynny pan fyddant wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon am 2023/24.

**Gwaith y Cyngor**

Dyma grynodeb o'r math o waith y mae'r Cyngor Cymuned wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhaglen y cael ei roi ar y wefan ar y dydd Mercher cyn y cyfarfod, a bydd y cofnodion hefyd yno i bawb ei gweld ar ôl iddynt gael eu awdurdodi yn y cyfarfod dilynol. Bydd y cynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu hefo'r Clerc gan holi am wahanol broblemau sydd angen eu datrys, a byddant yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd misol. Bydd y Clerc wedyn yn cysylltu hefo'r adrannau perthnasol/neu unigolion i geisio datrys yr ymholiadau.

- **Ceisiadau cynllunio** – bydd y cynghorwyr yn edrych yn fanwl ar y ceisiadau cyn gwneud penderfyniad ar unai gefnogi'r cais, dim gwrthwynebiad, neu wrthod. Bydd y Clerc wedyn yn anfon llythyr drwy ebost at Adran Cynllunio, Cyngor Gwynedd fel bod yr ymateb i'w weld cyn iddynt wneud penderfyniad terfynol.
- **Gwaith ar y ffyrdd yn y gymuned** – bydd yr Adran Priffyrdd yn anfon manylion am unrhyw waith sydd yn cael ei wneud o fewn y mis canlynol.
- **Cyngor Gwynedd/Un Llais Cymru/Llywodraeth Cymru** – derbynnir gwybodaeth am gynlluniau, deddfwriaeth newydd a bydd cyfle i'r Cyngor cymuned leisio barn ac ymateb.
- **Materion yn y gymuned** – bydd y cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau am broblemau sydd yn dod i'r amlwg o dro i dro.
- **Gwaith barbio blynyddol ar y llwybrau**.
  Gwahoddir prisiau/tendr gan gontractwyr ar gyfer gwaith barbio a chlirio ar y llwybrau canlynol.
  Bydd angen i'r Contractwr llwyddiannus gyflwyno tystysgrif yswiriant cyfredol cyn dechrau'r gwaith.
  Comin Bryncroes – un toriad bob tair wythnos o 1af Ebrill hyd ddiwedd Hydref yn flynyddol
  Mynwent newydd Llandegwnnig – un toriad bob tair wythnos o 1af Ebrill hyd ddiwedd Hydref yn flynyddol
  Llwybr Bach, Botwnnog fel bo'r angen
  Llwybrau eraill a ddaw i sylw'r Cyngor

Dyma rai o'r materion a drafodwyd yn ystod y flwyddyn:

- **Archebu potiau blodau**
  Archebwyd pump pot blodau er harddu a chroeaswu dieithriaid i'r ardal yn enwedig felly o gofio fod Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd yn dod i Foduan ym mis Awst, 2023. Gosodwyd y potiau ym Motwnnog; Sarn Mellteyrn; croesffordd am Fryncroes; Comin Bryncroes a tir ger Y Fantol, Rhoshirwaun. Diolchir i'r aelodau fu yn gyfrifol am osod y potiau/tybiau a phlannu'r blodau.

- **Meddygfa Rhybach**

  Gwnaed ymholiadau er ceisio lleoli lloches bws ger y Feddygfa ym Motwnnog. Oherwydd y gwariant penderfynwyd gohirio ystyriaeth hyd y flwyddyn ariannol 2024/25. Gwnaed ymholiadau a Rheolwr Meddygfa Rhydbach ynglyn a lleoliad y lloches bws a dywedodd nad oedd ganddynt wrthwynebiad ond fod ganddynt rai pryderon.
- **Cau ffordd ym Mhenrhos pan fydd llifogydd**

  Gofynnwyd i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ystyried rhoi arwyddion ym Mhenygroeslon pan fydd y ffordd ym Mhenrhos yn cael ei chau oherwydd llifogydd er rhoi cyfle i deithwyr gael mynd drwy Nefyn yn hytrach na gorfod troi yn Rhydgaled drwy Rhydyclafdy a.y. Derbyniwyd eu hymateb:

  "yn dilyn penderfyniadau i gau'r lon ym Mhenrhos A499 – mae arwyddion yn cael eu gosod ar hyd y gwyriad mor fuan a phosibl. Mae hyn yn cynnwys ar hyn o bryd arwyddion yn Rhydgaled yn rhybuddio fod Penrhos ar gau. Yn ogystal mae'r Adran yn adolygu trefn arwyddo'r gwyriad, a byddwn yn cynnwys ail edrych ar sut mae'r gwyriad yn cael ei arwyddo tu hwnt i'r ardal uniongyrchol, mewn lleoliadau fel Penygroeslon er enghraifft."
- **Hysbysfyrddau**

  Cam pwysig arall gymerwyd oedd archebu hysbysfyrddau ar gyfer Canolfan Congl Meinciau, Botwnnog; Neuadd Goffa Sarn Mellteyrn a Chanolfan Bryncroes, er hysbysebu rhaglen y Cyngor; cofnodion y Cyngor; hysbysiadau pwysig megis archwilio'r cyfrifon a.y. Mae gan y cyhoedd yr hawl i roi eu hysbysbion hwythau yn y blychau ond cysylltu a'r Cynghorydd Carys H. Evans ym Motwnnog a'r Cynghorydd Glyn Roberts i'r ddau leoliad arall.
- **Cylchfan ym Mhenygroeslon**

  Penderfynodd y Cyngor gefnogi cais Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen DrawLlyn ar Gyngor Gwynedd, am gylchfan ym Mhenygroeslon. Derbyniwyd ymateb gan Reolwr Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd y byddai'n "synhwyrol i'r gwasanaeth cynhyrchu astudiaeth dichonoldeb i adnabod beth yw'r opsiynau sy'n agored i wasaaneth. Bwriad yr adroddiad yw i adnabod os byddai dechnegol bosibl uwchraddio'r croesffordd canlynol i gylchfan yn ogsytal a gweld os oes yna opsiynau yn y tymor byr y byddai'n bosibl i ni ei gyflwyno i wella'r sefyllfa presennol."

  Ym mis Tachwedd 2023, derbyniwyd ymateb pellach gan y Rheolwr Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd fod "y gwasanaeth wedi comisiynu adroddiad i edrych ar y groesffordd ger Mynedfa Wynnstay yn yr ardal. ...cytunwyd y byddai cwmni Wynnstay yn edrych ar gynllun maes parcio ar wahan i'r cynllun mae'r gwasanaeth hwn yn edrych arno."
- **Cynnig i gynhaldedd Un Llais Cymru**

  Gwahoddir Cynghorau i gyflwyno cynnig(ion) i'w trafod yng Nghynhadledd flynyddol Un Llais Cymru a bu i Gyngor Bownnog anfon y cynnig a ganlyn:

  "Oherwydd pwysau gwaith cynyddol ar Glercod Cynghorau Cymdeithas ar hyn o bryd a rheolau newydd yn cael eu cyflwyno yn barhaus, teimlai'r aelodau fod yr holl waith a ddisgwylir i Glercod ei wneud am bitw o gyflog yn sarhaus. Oherwydd hyn gwelir nifer yn methu dennu clercod pan mae'r clerc presennol yn ymddeol, a'r gymuned yn dioddef oherwydd hynny. Oni ddylai Un Llais Cymru ystyried pa gamau ddylid eu cymryd er sicrhau tegwch i glercod." Yn anffodus ni fu y cynnig yn llwyddiannus i'w drafod yn y gynhaledd.
- **Polisi Iaith Cyngor Botwnog**

  Mabwysiadwyd y polisi iaith – gweler y wefan.
- **Prosiect Perthyn Llyn**

  Mae'r Cyngor wedi arwyddo datganiad yn dynodi ardal o fewn ffiniau'r Cyngor yn Ardal o Arwyddocad Iethyddol (dwysedd uchel) – mae'r datganiad yma yn rhan o gofnodion y Cyngor 11eg Rhagfyr, 2023.

- **Model o Reolau Sefydlog 2023 (Cymru)**
  Penderfynwyd, oherwydd mai newydd fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai, fod y Clarc i edrych drwy'r model newydd ac anfon fersiwn diwygiedig i'r aelodau. Bydd y Rheolau hyn yn cael eu hystyried yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2024.
- **Materion Ffyrdd**
  Tynnwyd sylw at nifer o faterion fyrdd a chafwyd ymateb gan y Peiriannydd Rhanbarthol yn fisol i'r cwynion.
- **Datblygiad arfaethedig yn dir Cae Capel, Botwnnog**
  Trafodwyd y datblygiad arfaethedig yma mewn nifer o gyfarfodydd ac ym mis Ebrill, 2024, trafodwyd y cais cynllunio pryd y penderfynwyd gwrthwynebu'r cyfryw. (Bydd adroddiad llawn o hyn yn adroddiad 2024/25).
- **Plannu Coed Cynhenid yn yr AHNE**
  Derbyniwyd gwybodaeth gan Swyddog AHNE Llyn fod cyllid gan Llywodraeth Cymru i blannu coed cynhenid yn yr ardal. Y rhewm am hyn yw pwysigrwydd coed o ran amsugno carbon a'u cyfraniad i fywyd gwyllt. Awgrymodd y Cyngor Comin Bach, Bryncroes a Rhos Botwnnog fel dau leoliad i'w hystyried.
- **Uned Iaith yn Llangybi**
  Gofynnwyd i Arweinydd Addysg yng Nghyngor Gwynedd pam fod y gwasanaeth yr Uned Iaith yn Llangybi wedi ei chwtogi – mae hyn yn cael effaith pellgyrhaeddol nid yn unig ar y plentyn ond hefyd yr athro a'r disgyblion hŷn yn enwedig (blynyddoedd 3 – 6).
- **Gwarchod y Gymraeg yn ein hysgolion**
  Penderfynwyd cefnogi cais y Cynghorydd Richard Glyn Roberts i'w gefnogi drwy anfon llythyr at y Pennaeth Addysg i ail lunio Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd.
- **Archwilio cyfrifon 2022/23**
  Adroddwyd nad oedd y Cyngor wedi derbyn canlyniad archwilio'r cyfrfon am 2022/23 yn ol gan Archwilio Cymru a gofynnwyd am farn Mel ab Owain o Un Llais Cymru. Atebiad Mel ab Owain oedd "fod llawer iawn o Gynghorau heb gael eu ffurflenni yn ol gan yr archwiliwr. Gallech wneud cwyn i'ch Aelod Seneddol (Mabon ap Gwynfor) am safon wael y gwasanaeth." Penderfynodd y Cyngor aros am ymateb yr Archwilwyr.
- **Treth y Cyngor**
  Anfonwyd llythyr at Bennaeth Cyngor Gwynedd yn datgan pryder a gofid o ddeall fod codiad aruthrol yn wynebu trethdalwyr Gwynedd a hynny yn yr hinsawdd economaidd rydym yn byw ynddo o hyn o bryd. Derbyniwyd cydnabyddiaeth i'r llythyr yn unig.
- **Llanastr o'r lori ailgylchu**
  Tynnwyd sylw at y llanastr a adewir ar ol gan y lori ailgylchu a derbyniwyd cadarnhad gan y Rheolwr Gwasanaethau Gwastraff fod cyfarwyddyd wedi ei roi i'r criw fod y drysau llwytho i'w cau pan yn teithio dros 20mya neu ble mae pellter rhwng tai yn fwy na 100m.
- **Teleffon symudol**
  Tynnwyd sylw Cwmni EE at y diffyg derbyniad (reception) sydd ym Mhen Llyn.

**Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
Ystytrir ceisiadau am gyfraniad ariannol dair gwaith y flwyddyn, Ebrill, Gorffennaf ag Ionawr a gofynnir am y ceisiau hyn i fewn ar 1af o'r mis cyn y trafodir y cais. Gofynnir hefyd am fantolen ariannol os yw'r mudiad/sefydliad wedi cael cyfraniad o'r blaen.
Cyfrannwyd yn ystod y flwyddyn 2023/24 fel a ganlyn:

Canolfan Bryncroes

Clwb Snwcer Sarn
Cronfa Goffa Wil Pent Sun
Cylch Meithrin Ysgol Pont y Gof
Ty Gobaith
Pwyllgor Cae Chwarae Sarn
Cerebal Palsy
Cyfeillion Mynwent Mellteyrn
Cyfeillion Mynwent Llandegwnning

**Pwrpas yr adroddiad** yma yw i nodi blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor yn ystod y flwyddyn hyd at 31.03.2024, sydd yn ofynnol gan adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a bydd yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol o hyn ymlaen.

Mae cynghorau cymuned a thref yn rhan o lywodraeth leol, maent yn cael eu hethol yn ddemocrataidd a gweithio ar y lefel mwyaf lleol i wella y gymuned. Mae'r cyngor yn gyfrifol am gynnal busnes cyhoeddus ac am wario arian cyhoeddus.  Yn ôl y gyfraith, mae angen sicrhau fod y cyngor yn diogelu a defnyddio'r arian cyhoeddus a ymddiriedwyd iddynt mewn ffordd darbodus, effeithlon ac effeithiol, gan roi cyfrif priodol amdano. Gwneir hyn wrth gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, a chyflawni'r canlyniadau gorau i'r cyhoedd.

**Y Dyfodol**

Yn ystod y flwyddyn nesaf, gobeithir

Gosod blodau yn y potiau yn y gwahanol bentrefi

Ystyried gosod lloches bws ger Meddygfa Rhydbach, Botwnnog

Parhau i gadw'r gymuned yn saff i bawb, ac yn le braf i fyw ynddo.

Llofnodwyd gan:

Cadeirydd:.Sion Williams        Clarc  .Gwenda Roberts

Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y Cyngor  13eg Mai, 2024

I'w adolygu'n flynyddol yn y Cyfarfod Blynyddol.